

## Datganiad Newyddion

### Gall unrhyw Ddyn... ddioddef camdriniaeth ddomestig

Mae ymgyrch i godi ymwybyddiaeth y gall dynion fod yn ddioddefwyr cam-drin domestig wedi cael ei datblygu gan Fwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg, mewn cydweithrediad â Grŵp Llywio Cwm Taf Morgannwg VAWDASV (Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol).

Roedd hyn mewn ymateb i argymhelliad gan Adolygiad Dynladdiad Domestig i farwolaeth dyn yn ardal Cwm Taf oherwydd trais domestig.

Nod yr ymgyrch, sydd wedi cael ei henwi'n "Any Man Can..." yw tynnu sylw at fater cam-drin domestig yn erbyn dynion a chodi ymwybyddiaeth o ble y gallant fynd am wybodaeth, cyngor a chefnogaeth yn Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr.

Mae'r ystadegau'n dangos:

- Bydd un o bob chwe dyn yn dioddef cam-drin domestig yn ystod eu hoes.
- Mae dros 500,000 o ddynion yn dioddef camdriniaeth gan eu partner.
- Mae un dyn bob pythefnos yn cael ei ladd gan gyfredol neu gyn-bartner.

(Adroddiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) 2017/18)

Er gwaethaf y ffigurau hyn, credir bod trais domestig a cham-drin yn erbyn dynion yn drosedd sydd heb ei riportio ac mae hyn yn aml oherwydd rhwystrau fel ofn peidio â chael eich credu neu gael eich cyhuddo fel y tramgwyddwr, embaras wrth siarad am y cam-drin, a theimlo ' llai o ddyn '. Nod "Any Man Can..." yw helpu i chwalu'r rhwystrau hyn ac annog dioddefwyr i gael yr help, y gefnogaeth a'r cyngor ymarferol sydd ar gael ledled Cwm Taf Morgannwg.

Mae gan ddynion yr un hawliau yn union â menywod i fod yn ddiogel yn eu cartrefi eu hunain. Mae'n ddyletswydd ar bob gwasanaeth cyhoeddus i ddarparu eu gwasanaethau i bawb, beth bynnag fo'u rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol. . Mae dynion yn cael eu hamddiffyn gan yr un deddfau yn union â menywod - gellir erlyn unrhyw un sydd wedi ymosod ar berson arall, waeth beth yw rhyw'r naill na'r llall.



**Gall unrhyw Ddyn... ddioddef camdriniaeth ddomestig.**

**Gall unrhyw Ddyn... gael gfael ar gymorth.**

Os ydych chi'n profi cam-drin domestig ac angen rhywun i siarad ag ef am gefnogaeth ac arweiniad, cysylltwch â ni.

**Rhondda Cynon Taf**

PontypriddSafetyUnit@rctcbc.gov.uk

01443 494190

**Merthyr Tudful**

Teulu.mac@smt.org.uk

01685 388444

Gwasanaeth Symudol / Testun - 07539 170396

**Pen-y-bont ar Ogwr**

info@calandvs.org.uk

01656 766139

**Live Fear Free** (llinell gymorth 24 awr)

0808 80 10 800

Os ydych chi'n profi trais domestig a bod angen cymorth brys arnoch chi, ffoniwch yr heddlu ar 999.

Am wybodaeth bellach, ewch i [www.ctmsb.co.uk](http://www.ctmsb.co.uk)

**Nid ydych chi ar eich pen eich hun.**

Nodiadau i olygyddion:

Mae Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg (CTMSB) yn bartneriaeth statudol sy'n cynnwys yr asiantaethau sy'n gyfrifol am ddiogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl yn ardal Cwm Taf Morgannwg. Mae'r Bwrdd yn sicrhau bod gan asiantaethau

yn y rhanbarth drefniadau effeithiol ar waith i sicrhau bod pobl o bob oed, sy'n byw yn y rhanbarth, yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth, esgeulustod neu fathau eraill o niwed. Mae hyn hefyd yn cynnwys atal camdriniaeth, esgeulustod neu fathau eraill o niwed rhag digwydd.

Mae Adolygiad Dynladdiad Domestig yn adroddiad a gynhrychir yn dilyn marwolaeth unigolyn trwy drais, camdriniaeth neu esgeulustod gan rywun yr oedd ef / hi wedi bod mewn perthynas agos â nhw neu rywun o'r un cartref.

Cynhrychir yr adroddiadau hyn gyda mewnbwn gan nifer o asiantaethau, gyda'r bwriad o nodi'r gwersi i'w dysgu o'r farwolaeth fel y gellir rhoi mesurau ar waith i atal, lle bo hynny'n bosibl, digwyddiadau o'r fath rhag digwydd yn y dyfodol.

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â:

Beth Melhuish

Swyddog Cyfathrebu ac Ymgysylltu, CTMSB

[Beth.melhuish@rctcbc.gov.uk](mailto:Beth.melhuish@rctcbc.gov.uk)